OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 1009 (Cy.149)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau Adrodd ar Brisiau Cynhyrchion Llaeth (Cymru) 2011

Gwnaed - - - - *29 Mawrth 2011*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - *31 Mawrth 2011*
Yn dod i rym - - *21 Ebrill 2011*

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at ddibenion gwneud rheoliadau o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) o ran polisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer diben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i'r cyfeiriadau at offeryn Undeb Ewropeaidd, yn y Rheoliadau hyn, gael eu dehongli fel cyfeiriadau at yr offeryn Undeb Ewropeaidd hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 a pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Adrodd ar Brisiau Cynhyrchion Llaeth (Cymru) 2011. Maent yn dod i rym ar 21 Ebrill 2011 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "cynhyrchion llaeth" ("*milk products*") yw'r cynhyrchion hynny a restrir yn Erthygl 2(3)(a) o Reoliad y Comisiwn, ac Atodiadau 1.A ac 1.B iddo;

ystyr "proseswr llaeth" ("*milk processor*") yw person sy'n rhedeg sefydliad sy'n gweithgynhyrchu cynhyrchion llaeth; ac

ystyr "Rheoliad y Comisiwn" ("*Commission Regulation*") yw Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 479/2010 sy'n gosod rheolau ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007

(**1**) O.S. 2010/2690.
(**2**) 1972 p.68. Mewnosodwyd paragraff 1A yn Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p.51).